Equal Opportunities Cyfle Cyfartal

Enwau Lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili 2016



GWEITHIO'N GYTÛN
ER LLES PAWB

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This publication is available in other languages and formats on request.

cymraeg@caerffili.gov.uk **www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb**

Enwau Lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Mae llawer o enwau lleoedd ledled y fwrdeistref sirol, ledled Cymru a'r DU wedi bodoli ers canrifoedd lawer, ac yn aml mae ystyr yr enwau wedi'i anghofio neu wedi'i ddrysu. Fel arfer mae enwau lleoedd Cymraeg yn cynnwys disgrifiad daearyddol o'u lleoliad, neu'n gysylltiedig ag eglwys neu adeilad arwyddocaol arall yn yr ardal.

Yn fras, gellir rhannu enwau aneddiadau i chwe "dosbarth" neu "fath" o enwau o ran eu henwau Cymraeg a/neu eu henwau Saesneg. Mae'r pedwar math cyntaf yn weddol syml, a'r ddau olaf ychydig yn fwy cymhleth:-

- Enwau Cymraeg yn unig - mewn achosion megis Ynys-ddu, Llanbradach neu Ystrad Mynach nid oes fersiwn Saesneg o'r enw yn bodoli neu nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin heddiw;
- Enwau Saesneg yn unig - mae'r gwrthwyneb yn wir ar gyfer Oakdale, Nelson neu Crosskeys, er enghraifft lle nad oes fersiwn Cymraeg o'r enw yn bodoli, neu nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin heddiw;
- Enwau Cymraeg a Saesneg gwahanol ar yr un lle, o darddiad hollol wahanol e.e. Trecelyn/Newbridge;
- Enwau Cymraeg a Saesneg safonol, o'r un tarddiad, ond sydd wedi esblygu yn y ddwy iaith, gyda'r ddwy ffurf wedi ennill eu plwyf, e.e. Coed Duon/Blackwood;
- Enwau Cymraeg a Saesneg safonol, sy'n debyg iawn, lle'r sillafiad yw'r prif wahaniaeth e.e. Caerffili/Caerphilly, Crymlyn/Crumlin ac Abertyswg/Abertysswg;
- Lle mae rhywun wedi chwilio am gyfieithiad o enw nad yw'n bodoli yn yr iaith honno mewn gwirionedd, ac felly wedi ‘cyfieithu’ yr enw, er nad oes sail ieithyddol na hanesyddol dros y cyfieithiad newydd hwn.

Ceir enghreifftiau o'r pum math cyntaf ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, ond nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cyfieithu enw anheddiad lle nad oedd fersiwn yn bodoli eisoes - byddai hyn ond yn digwydd ar ôl cynnal rhyw fath o ymgynghoriad â thrigolion ardal i'w caniatáu i benderfynu ar yr enw drostynt hwy eu hunain.

Hyd yma, nid yw ymarfer ffurfiol o'r fath wedi'i gynnal yn yr ardal hon, er bod enghreifftiau yn bodoli heddiw lle mae rhai trigolion lleol wedi gwneud hynny ar liwt eu hunain (megis Treffilip, Tref Eliot a Thretomos).

Gwnaed gwaith llawer manylach ar enwau lleoedd mewn rhai ardaloedd o Gymru - mae Llanelli yn un enghraifft, lle defnyddiwyd Llanelli/Llanelly am lawer o flynyddoedd tan i'r cyngor benderfynu gael gwared â'r fersiwn anghywir ar holl arwyddion yr ardal. Gellir gweld yr un duedd yn y Rhondda, gyda llawer o'r arwyddion newydd ond yn dangos Treorci yn hytrach na Treorchy/Treorci.

Tan 2001 y Pwyllgor Ymgynghorol ar Enwau Lleoedd (PNAC) oedd yn gyfrifol am roi cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Rhoddwyd y cyfrifoldeb statudol hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2001. Nid oedd gan y Bwrdd unrhyw bwerau statudol yn y maes hwn ac nid oedd ganddo unrhyw rym cyfreithiol i orfodi ei gyngor na'i argymhellion, yn hytrach nod y Bwrdd oedd gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Arolwg Ordnans, awdurdodau lleol ac eraill sydd â diddordeb yn y maes er mwyn rhoi cyngor iddynt ar y ffurfiau safonol. Trosglwyddwyd cyfrifoldeb am hyn i Swyddfa'r Comisiynydd Iaith Gymraeg yn 2012.

Dros y blynyddoedd diwethaf gweithiodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol ledled Cymru i lunio rhestrau safonol o enwau lleoedd. Cyflwynwyd rhestr o enwau lleoedd Caerffili i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 1 Ebrill 2009, ac fe'i trafodwyd gan Dîm Safoni Enwau Lleoedd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 28 Mai 2009 lle gwnaed nifer o ddiwygiadau ac ychwanegiadau i'r rhestr. Fersiwn 2016 yw'r trydydd argraffiad.

Fodd bynnag, nid mater o gywiro camgymeriadau na rhoi gwybodaeth gefndirol ychwanegol a defnyddiol yn unig yw nifer o'r argymhellion. Pan fydd mân amrywiad yn unig, mae'r Tîm yn argymell y dylai Awdurdodau Lleol fabwysiadu ffurf Gymraeg gywir yr enw fel yr unig opsiwn.

Ymchwiliwyd yn drwyadl i'r holl sillafu, cysylltnodi, y defnydd o briflythrennau, acenion a chyfieithiadau i lunio'r rhestr hon, ac fe'i lluniwyd gan ddefnyddio amryw o gofnodion hanesyddol a mapiau, barn academaidd arbenigol gan Fwrdd yr Iaith ac eraill, a defnydd a dewisiadau lleol sy'n holl bwysig i'r broses.

Mae'r cofnodion wedi'u rhestru yma fel "Enw Cymraeg" ac yna'r "Enw neu fersiwn Saesneg" yn nhrefn y wyddor Gymraeg. Gyda'r enwau Cymraeg, dangosir yr elfennau sy'n ffurfio'r enw hwnnw mewn cromfachau ar ôl enw'r lle.

Mae cyfeirnod grid Arolwg Ordnans hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer pob tref neu bentref i ganiatáu i unrhyw un ddod o hyd i'r lleoliad gan ddefnyddio'r system honno. Dangosir y cyfeirnodau yn y fformat canlynol - 2 lythyren grid (naill ai SO neu ST gan fod y fwrdeistref sirol gyfan o fewn y ddau grid hyn) wedi'u dilyn gan 3 ffigur (dwyreiniad) a 3 ffigur (gogleddiad). Darparwyd a gwiriwyd y wybodaeth am y cyfeirnodau grid gan Isadran Gynllunio'r Cyngor.

Mae toreth o wybodaeth ar gael ar y we, megis llawer o hen fapiau o Gymru a'r DU, a chofnodion Eglwysig a phlwyfi. Fodd bynnag, pan fydd amwysedd neu wahaniaeth barn o ran tarddiad yr enw, nodwyd yr opsiynau amrywiol.

Os ydym wedi hepgor anheddiad, neu os ydych o'r farn ein bod wedi gwneud camgymeriad, os oes gennych ragor o wybodaeth mewn perthynas ag unrhyw un o'r enwau lleoedd hyn neu unrhyw ddarnau o wybodaeth hanesyddol neu straeon lleol difyr, mae croeso i chi gysylltu â ni - **cymraeg@caerffili.gov.uk** a byddwn yn diweddaru'r wybodaeth ar ein copïau electronig cyn gynted â phosibl, ac yn cynnwys y wybodaeth newydd mewn unrhyw argraffiadau pellach o'r llyfryn yn y dyfodol.

Rhestr Enwau Lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Aberbargod / Aberbargoed *(aber+bargod)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 155 005
Ystyr hyn yw "aber afon y ffin" gan fod Nant Bargod Rhymni (*Bargau Remni tua 1170*) yn ffurfio ffin rhwng dwy ardal o dir flynyddoedd maith yn ôl. Ceir "bargod" neu fondo ar dai, ac mewn ffordd, y bargodion yw'r ffin rhwng y wal a'r to. Gosodwyd y llythyren "e" i mewn i'r enw ers o leiaf 1629, fel petai'r gair yn deillio o "goed", fel yn achos enwau lleol eraill sy'n cyfeirio at goed megis **Hengoed** ac **Argoed**. Er enghraifft, dangosir y pentref fel *Aber Bargoed* ar fap o Sir Fynwy gan George Phillips a'i Feibion, Llundain, ym 1892.

Aberbîg / Aberbeeg *(aber+pig)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans – ST 210 020
Er bod y rhan fwyaf o'r pentref ym mwrdeistref sirol Blaenau Gwent, mae rhan o'r pentref dros y ffin ym mwrdeistref sirol Caerffili. Daw enw'r pentref o'r ffaith bod nant fach o'r enw Nant Bîg (*Nant Bige* 1577) yn llifo i mewn i'r afon Ebwy Fawr tua hanner milltir uwch ben cymer afonydd Ebwy Fawr ac Ebwy Fach. Gall yr enw darddu o'r ffaith bod y gair "pig" yn ddisgrifiad o'r man lle y daeth y nant fach allan o'r ddaear. Mae sillafiadau cynharach o'r enw yn cynnwys *Aberbyg* 1659, *Aber-Beeg* 1779 ac *Aberbeeg* o 1790.

Abercarn *(aber+carn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 216 948
Ystyr hyn yw "aber yr afon o'r carn" - gan gyfeirio at Nant Carn, sef y nant sy'n llifo o gopa'r bryn carneddog i mewn i Afon Ebwy. Datblygodd y pentref diwydiannol o amgylch Gwaith Haearn Abercarn (*Abercarne Works* 1756).

Abertridwr *(aber+tri+dwr)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 122 894
Ystyr yr enw yw "aber y tair nant", sef Nant Cwmceffyl, Nant Cwm Parc a'r nant sy'n llifo i lawr o Eglwysilan. Mae'r pentref mewn cwm lle mae'r tair nant hyn yn cydlifo i mewn i un, sef Nant yr Aber, sy'n llifo allan o'r cwm ac yn ymuno ag Afon **Rhymni**. Dangoswyd fel *Aber-tridwr* ym 1885.

Abertyswg / Abertysswg *(aber+tyswg, enw personol yw Tyswg)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 135 055
Ystyr hwn yw "aber yr afon Tyswg" - sef enw'r nant sy'n llifo i lawr o'r bryn uwchben ac sy'n ymuno ag afon **Rhymni** yn agos i'r pentref. Roedd y pwll glo lleol yn gweithredu rhwng 1897 a 1969, a'i enw gwreiddiol pan y'i hagorwyd ym 1897 oedd Pwll Llaca. Ailddefnyddiwyd y siafft gan Lofa McLaren yn ddiweddarach cyn iddi gael ei hailenwi'n Abertyswg yn y pendraw. Roedd y pwll yn cynhyrchu glo rhydd ar gyfer y diwydiant dur tan iddo gau ym 1969.

Argoed *(ar+coed)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO176 002
Fe'i henwyd yn wreiddiol ar ôl fferm leol. Er bod yr enw yn cyfieithu'n llythrennol i'r Saesneg fel "on wood", ei ystyr gwirioneddol yw 'yn neu ar gyrion coedwig neu fforest'. Yn wreiddiol, yr enw llawn oedd *Argoed Sirhywi* gyda chofnodion yn dangos *Argoyd Serowy* 1455, *Argoed Vawr* 1756, *Argoed* 1778. Roedd yn lleoliad i gapel Anghydffurfwyr adnabyddus o'r enw *Craig Hargode* 1781 ac *Argoed Meeting House* 1817.

Bargod / Bargoed *(bargod)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 148 991

"Ffin" yw ystyr yr enw - roedd yr afon yn ffin rhwng dau "gantref", neu ardal o dir flynyddoedd maith yn ôl. Ceir "bargod" neu "fondo" ar dai, ac mewn ffordd, y bargodion yw'r ffin rhwng y wal a'r to. Gosodwyd y llythyren "e" i mewn i'r enw gan lunwyr mapiau ers o leiaf 1629, fel petai'r gair yn deillio o "goed", fel yn achos enwau lleol eraill sy'n cyfeirio at goed megis **Hengoed** ac **Argoed**. Mae map o Forgannwg ym 1796 ond yn nodi *Capel Glatis* (Capel Santes Gwladys) yn yr ardal ac mae map diweddarach ar gyfer "England and Wales Delineated" ym 1843 yn dangos yr enw fel *Gilfach-fargawd-fawr* ac mae'r arfer o enwi Bargod ynghyd â Gilfach gyfagos yn gyffredin o hyd.

Bedwas *("bedwos" yn wreiddiol)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 169 889

Yn aml priodolwyd yr enw ar gam i lygriad o "bedd y gwas", ond daw'r enw o'r gair "bedw" mewn gwirionedd. Hen air yw "Bedwos" sy'n golygu "celli o goed bedw". Mae gan lawer o sillafiadau hanesyddol y terfyniad *-was* neu *-wes* yn hytrach na'r *-wos* gwreiddiol. Bu'r enw ar glawr ers dros 900 o flynyddoedd gydag amrywiadau megis *Bedewas* tua 1100, *Bedeways* 1263, *Bedves* 1476, *Bedwesse* 1535, *Bedwes* 1536-9 a *Bedwast* tua 1700. Mae'r ffurf bresennol **Bedwas** yn ymddangos ers o leiaf y 18fed ganrif, er enghraifft ar fap o Forgannwg ym 1796.

Bedwellte / Bedwellty *(bod+mellte yn wreiddiol)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 165 005

Ystyr "bod" yn y cyd-destun hwn yw "cartref, tŷ neu breswylfa" ac mae'n debygol iawn mai enw person yw "Mellte", felly ystyr yr enw yw "preswylfa Mellte". Ymddangosodd yr enw ar fapiau o Forgannwg a Sir Fynwy gan ei fod ar y ffin rhwng y ddwy hen sir. Fe'i nodwyd fel *Bydwelthy* ar fap o Sir Fynwy gan Robert Mordern ym 1701, *Bedwelthy* ym 1724 ac fel **Bedwellty** ym 1764 a 1820. Nodwyd yr enw fel *Bedwelty* ym 1840, 1885 a 1892, a defnyddiwyd y sillafiad modern ers yr 20fed ganrif.

Blaencarno *(blaen+carn)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 095 085

Anheddiad o nifer fach o dai ger pentref **Rhymni**. Gall "blaen" olygu rhagnentydd afon neu flaenau cwm, ac mae'r anheddiad hwn wedi'i leoli ger tarddle'r Afon Rhymni a blaenau cwm a enwyd ar ôl yr afon. Daw "carno" o'r gair "carn" sy'n golygu tomen gladdu, gan fod llawer o domenni claddu'r Oes Efydd yn yr ardal gyfagos, ac fe'i ceir hefyd yn enw'r ward lleol Twyn Carno.

Britannia

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 160 989

Anheddiad a ddatblygodd ers diwedd y 19eg ganrif, rhwng **Cefn Fforest** ac **Aberbargod**. Daw'r enw o fwthyn *Britannia Cottage* ac mae mapiau o 1886 yn dangos mai hon oedd yr unig annedd yn yr ardal gyfagos, heblaw am gaban signalau gerllaw, ar gangen Sirhywi rheilffordd y 'London and North Western Railway'.

Brithdir ***(brith+tir)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 149 020

Mae'n debyg bod yr enw yn cyfeirio at y golwg a oedd ar y tir pan sefydlwyd y pentref - y tir brith. Pan ddefnyddir y geiriau gyda'i gilydd, mae'n debyg bod hynny'n golygu bod y tir neu'r pridd yn yr ardal o ansawdd canolig neu efallai yn llawn cerrig gwasgaredig, pridd cymysg neu lystyfiant. Mae nifer o enghreifftiau o'r enw ar gael ers dechrau'r 17eg ganrif, sy'n aml yn ymwneud â lleoliad y capel yn hytrach na'r pentref. Dangoswyd yr enw fel *Capelbruthetere* ar fap Pieter van den Keere o Sir Fynwy ym 1605, yna *Gwaylod y Bryth Tire* 1693, *Tyr kefen y Breethdir* 1702, *the hamlet of Brithdecr* tua 1750 ac fe'i nodwyd fel *Capel-y-Brithdir* ar fapiau o 1843 a 1885.

Brynawel ***(bryn+awel)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 200 912

Cyfuniad o'r geiriau "bryn" ac "awel" yw'r enw. Ystâd o dai a adeiladwyd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf uwchben **Wattsville** yng Ngwm Sirhywi yw'r anheddiad hwn.

Caerffili / Caerphilly ***(caer+ffili, tybir mai enw personol yw Ffili)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 156 873

Yn enwog am ei chastell a'i chaws, mae'r dref yn dyddio yn ôl i o leiaf y 13^{eg} ganrif. Adeiladwyd y castell rhwng 1268 a 1271 gan Gilbert de Clare er mwyn darostwng yr arglwyddi Cymraeg lleol. Ceir dadlau o hyd o ran pwy neu beth oedd Ffili, er ei bod yn bosibl bod yr enw Caer Ffili yn cyfeirio at y gaer Rufeinig atodol ar dir y castell. Un eglurhad posibl yw bod esgob o'r enw Ffili â mynachlog yng Nghaerffili o bosibl, a chadarnhawyd ei fodolaeth gan garreg goffa o'r 8fed ganrif a ddarganfuwyd ger Castell Ogwr. Nodwyd darganfyddiad y garreg yn y cyfnodolyn *Archaeologia Cambrensis* yng nghanol y 1930au. Oherwydd ei hanes hir, ymddangosodd y dref ar y rhan fwyaf o'r mapiau o'r ardal ers canrifoedd, megis *Caerfilly* yn y *Chorographia Britanniæ* gan T. Badeslade ac W H Toms ym 1741 ac fel **Caerphilly** gan John Ellis yn *Ellis's English Atlas* ym 1766.

Cefn-crib ***(cefn+crib)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 235995

Termau ar gyfer nodweddion daearyddol yw "cefn" a "chrib". Ceir cryn ddadlau o ran p'un ai *Cefn-y-crib* yw'r ffurf gywir, fel y gellir ei gweld yn yr enghreifftiau hanesyddol *Ceven-y-crib* 1741 a *the Keven y Krib* 1801, neu *Cefn-crib*, sef y ffurf a ddefnyddir heddiw gan y rhan fwyaf o'r trigolion lleol ynghyd â'r awdurdod lleol.

Cefn Fforest ***(cefn+fforest)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 165 975

Cyfeiria'r enw at y ffaith y gorchuddid y cefn gan goed ar un adeg - "cefn fforest". Fe'i dangoswyd fel *Cefn-y-fforest* ar fapiau o Forgannwg ym 1886, lle ceid ond nifer fach o dai gwasgaredig yn yr ardal goediog hon rhwng yr aneddiadau mwy o faint **Pengam** a **Choed Duon**.

Cefn Hengoed ***(cefn+hen+coed)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 151 959

"Y cefn uwchben Hengoed" yw ystyr enw'r anheddiad, oherwydd ei leoliad uwchben hen ystâd Neuadd Hengoed, sef pentref **Hengoed** bellach. Yn ddiddorol, dengys mapiau o 1886 fod Neuadd Hengoed i'r gogledd o anheddiad **Cefn Hengoed** er bod **Cefn Hengoed** bellach i'r gogledd o **Hengoed** fodern ac yn edrych drosti. Fe'i nodwyd fel *Keven Hengode* yng nghofnodion y plwyf ym 1750.

Cefn Mabli / Cefn Mably *(cefn+yr enw personol Mabli)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 204 845
Er bod y rhan fwyaf o'r ardal hon o fewn ffiniau Caerdydd, saif rhai o'r tai yn ardal Cefn Mabli ym mwrdeistref sirol Caerffili, yn yr ardal wledig i'r de o **Rydri** a **Draethen**. Mae'r coedwigoedd yno yn enwog am glychau'r gog sy'n tyfu yno yn y gwanwyn, sydd ymhlith y prydferthaf yn ne Cymru. Mae'r enw yn cofláu Mabli, sef merch Robert Fitzhamon, a elwir yn 'Orchfygwr Normanaidd' Morgannwg. Hi oedd y cyntaf i godi tŷ ar y cefn tua 1100. Mabli yw'r fersiwn Cymraeg o'r enw Mabel.

Cefn-y-pant / Pantside *(cefn+y+pant , er "pant" yn unig oedd hi'n wreiddiol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 215 975
Uwchben **Trecelyn**, ystyr "cefn" yn y cyd-destun hwn yw'r gefnen neu grib mynydd, a "pant" yw cafn neu gwm. Mae'r pentref ar gefnen sy'n edrych dros **Drecelyn** ac afon Ebwy islaw. Mae'r fersiwn Saesneg yn gymysgedd prin o'r ddwy iaith mewn enw lle ac ymddengys fod y ddau fersiwn modern a ddefnyddir yn lleol wedi datblygu o'r enw gwreiddiol *Pant*, a ddangoswyd ar fapiau Arolwg Ordnans mor ddiweddar â'u map 1 fodfedd ym 1953 a'r map 6 modfedd ym 1966. Mae'n bosibl bod y fersiwn Saesneg modern wedi datblygu wrth ofyn i bobl o ba ran o Drecelyn y deuant - eu hateb byddai "the Pant side", a bellach mae'r enw Cymraeg wedi datblygu i adlewyrchu hynny hefyd.

Chapel of Ease
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 220 960
Enwyd yr ardal hon o **Abercarn** ar ôl y capel a adeiladwyd gan yr Arglwyddes Llanofer. Safle bws yw lleoliad y capel bellach, ond trosglwyddwyd yr enw ar yr ardal ar lafar gwlad drwy genedlaethau o bobl leol.

Coed Duon / Blackwood *(coed+du yn ei ffurf luosog)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 173 972
Sefydlwyd y dref gan J.H Moggridge ar ddechrau'r 1820au i ddarparu tai addas ar gyfer gweithwyr. Er y'i galwyd yn *Tremoggridge* yn wreiddiol er anrhydedded iddo, yn ddiweddarach cymerodd y dref ei henw o'r coed yn yr ardal. Yn hytrach na golygu yn llythrennol bod y coed yn ddu, daw'r enw o'r ffaith bod y coed yn drwchus ac yn dywyll iawn. Ym 1996, pan ddaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i fodolaeth ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol, canfuwyd saith amrywiad sillafu ar arwyddion ffyrdd a dogfennau swyddogol ar gyfer y dref. Roedd rhai yn amlwg yn anghywir, megis *Y Coedion* ond mae'r rhan fwyaf o'r lleill oherwydd gwahaniaethau o ran priflythrennau a chysylltnodi - fel *Coed-Duon*, *Coed Duon*, *Y Coed-Duon*, *Coed-Duon* gyda bron dim cysondeb, hyd yn oed o fewn dogfennau unigol neu arwyddion ffyrdd mewn ardal ddaearyddol fechan. Cofnodwyd yr enw fel *Coed dduon* ar fapiau Sir Fynwy tua chanol y 19eg ganrif. Llwyddwyd yn ffodus i atal un arwydd rhag cael ei gosod tua diwedd yr 20fed ganrif a oedd yn dwyn y cyfieithiad llawer rhy lythrennol *Du Pren* (credir fod hyn o ganlyniad i ddefnydd geiriadur gan rywun oedd yn ceisio helpu ac arbed amser cyfieithu). Cynhaliwyd ymchwil lleol gyda'r ddau opsiwn a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yn cael eu cynnig - nododd rhan fwyaf o'r ymatebion ar y pryd mai **Coed Duon** oedd yr un a ffefrir ac felly dyma'r un a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol mewn dogfennau ac ar arwyddion ffyrdd ers hynny. *Y Coed Duon* yw'r fersiwn arall sy'n cael eu defnyddio ac mae'r defnydd o un fersiwn dros y llall yn destun dadl fawr. Mewn gwirionedd, y ddadl honno yn wreiddiol a ddechreuodd y broses ym 1998 a wnaeth arwain at y rhestr enwau lleoedd cynhwysfawr hon i gael ei chreu yn y lle cyntaf.

Coed-y-brain *(ffurf luosog coed+y+brân)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 155 005
Safle nifer fach o fythynnod i'r gogledd o **Aberbargod** oedd hwn yn wreiddiol.

Comin Gelligaer / Gelligaer Common *(gelli+caer)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 125 985
Anheddau gwasgaredig ar yr ucheldir agored a geir yma yn hytrach nag anheddiad, a merlod mynydd Cymreig a cheffylau eraill sy'n ffurfio trwch y boblogaeth. Mae'r ffordd Rufeinig o *Gaerdydd* i'r *Gaer*, ger *Aberhonddu* yn rhedeg ar draws y Comin, tua'r gogledd yn fras, a gellir gweld hyn yn glir o hyd uwchben **Fochriw**.

Croespenmaen *(croes+pen+maen)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 199 983
Defnyddir y gair "croes" yma yng nghyd-destun croesffordd ger pentref **Penmaen**. Mae'r enw ar glawr ers o leiaf dechrau'r 17eg ganrif fel *Crosspenmay* 1611 ac eto erbyn 1817, *le Crosse pen Maine* 1626-7, *Cross Pen Main* tua 1790 a 1820 a *Croes Penmaen* ym 1833.

Crosskeys
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 224 918
Mae'n debyg bod yr enw'n deillio o'r dafarn gyntaf a agorwyd yn yr ardal, y Cross Keys Inn, sef y Cross Keys Hotel bellach. Ni ddefnyddir unrhyw enw Cymraeg ar lafar gwlad heddiw, er mai *Pontycymer* oedd enw'r ardal cyn i'r dafarn gael ei hadeiladu.

Crymlyn / Crumlin *(crymu+llyn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 212 983
Daw'r enw o siâp llyn ar lawr y dyffryn, ger y bont o bosibl. Mae'r enw'n cynnwys y gair Cymraeg "Crwm" ar ffurf y ferf "crymu". Llygriad o'r enw Cymraeg yw'r enw Saesneg, a gamsillafwyd gan lunwyr mapiau a'i hysgrifennodd yn unol â seiniau'r iaith Saesneg. Cofnodwyd yr enw fel *Crymlin* 1630, *Crumlyn's bridge* 1631 a *Pont Grymlyn* ym 1710.

Cwmcarn *(cwm+carn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 221 937
Cyfeiria'r enw at Nant Carn, sef y nant sy'n llifo o ben y bryn i Afon Ebwy. *Abergwyddon* oedd enw gwreiddiol y pentref, fel y nodwyd ar fapiau o Sir Fynwy hyd at 1817, ond yna fe'i hailenwyd yn **Cwmcarn**, fel y gwelwyd ar fapiau o Sir Fynwy erbym 1820. Yn ôl un stori, newidiodd yr enw gan nad oedd gorsaf-feistr o Loegr yn gallu ynganu *Abergwyddon* wrth gyfeirio at yr orsaf, felly newidiwyd yr enw yn sgîl dyfodiad y rheilffordd.

Cwm-corrwg *(cwm+corrog)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 179 997
Mae enw'r ardal, sef anheddiad sydd dafliad carreg o **Argoed** yn adlewyrchu ei leoliad "yng nghwm yr afon fach". Ansoddair yw "corrog" sy'n golygu "côr" neu "bach", ac fe'i ceir mewn enwau lleoedd eraill megis *Glyncorrwg* yn nyffryn Afan, i'r gogledd o *Bort Talbot*, a'i ffurf fenywaidd *Corris* ym Meirionnydd. *Cwm Corrwg* oedd un o'r aneddiadau prin yn yr ardal a ddangoswyd ar fapiau o Forgannwg, megis yr un a argraffwyd gan Eyre a Spottiswoode, Llundain ym 1885. Dangosir y bont ar draws afon Sirhywi fel *Pont-Cwm-corrwg* ar fapiau manylach sy'n dyddio yn ôl i 1879.

Cwmfelin-fach *(cwm+melin+bach)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 188 913
Mae'r pentref wedi bodoli ers o leiaf y 18fed ganrif, ond ehangodd rhwng 1900 a 1910 yn sgil twf y diwydiant glo yn y cwm - mae'r enw'n cyfeirio at leoliad melin flawd a fu yno ar un adeg. Cofnodwyd yr enw fel *Cwmfelin-fach* ers 1752.

Cwm Gelli *(cwm+gelli)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 176 982
Anheddiad bach rhwng **Coed Duon** a'**r Graig** yw Cwm Gelli. Hwn oedd lleoliad un o'r pyllau glo yn yr ardal o ddechrau neu ganol y 19eg ganrif tan iddo gau ar ddechrau'r 1940au. Adeiladwyd rhai o'r tai fel cartrefi glowyr a'u teuluoedd, ond adeiladwyd tai mwy newydd yno yn ddiweddar gan fod yr anheddiad mewn lleoliad delfrydol, mewn man eithaf tawel sy'n agos i gefn gwlad, ond sydd eto ond ychydig funudau i ffwrdd o amwynderau **Coed Duon**.

Cwmnantyrodyn *(cwm+nant+yr+odyn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 185 955
Mae'r enw'n cyfeirio at yr odynau a oedd yn yr ardal flynyddoedd maith yn ôl. Cofnodwyd yr enw fel *Cwm-nant yr Odyn* ym 1752.

Cwmsyfiog *(o "cwm" a ffurf ansoddeiriol "syfien")*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 155 025
Math o fefus gwyllt yw "syfien" felly ystyr llythrennol yr enw yw "cwm y mefus gwyllt". Yn aml ceid mefus gwyllt ar dir a oedd yn cynnwys gwastraff o'r pyllau glo gan nad oedd yn cynnwys fawr o nitrogen, os o gwbl. Fodd bynnag, "Syfiog" yw enw'r nant hefyd, sy'n dyddio yn ôl i o leiaf 1588 lle y'i cofnodir fel *Nant seveocke*, felly ystyr gwirioneddol yr enw yw "Cwm nant Syfiog". Mae'n bosibl bod enw'r nant wedi deillio o natur ffrwythlon y cwm. Mae hon yn enghraifft ddiddorol o sut yr oedd yr enw gwreiddiol yn berthnasol o hyd yn ystod cyfnod diwydiant glofaol yr ardal. Noder fod gan y dull cywir o sillafu'r enw acen ar ben yr "i" a elwir yn ddidolnod, ond prin y defnyddir hwn mewn dogfennau neu ar arwyddion, o bosibl oherwydd nad oedd argraffwyr amser yn ôl yn gallu cynhyrchu'r acen yn iawn.

Deri *(lluosog "derwen")*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 125 015
Roedd y dderwen yn goeden gyffredin iawn yn y cymoedd, ac enwyd llawer o leoedd ar ei hôl (yn gyffredinol, mae coed yn ffynhonnell gyffredin o enwau lleoedd). "Deri" yw ffurf luosog "derwen". (Gweler hefyd **Oakdale**). *Ysgwydd-gwyn* oedd enw gwreiddiol yr ardal, ar ôl enw'r ffermydd lleol, a dyna oedd enw'r hen bwll glo yno ym 1833, ond fe'i hailenwyd gan nad oedd llawer o fewnfudwyr, a ddaeth i weithio yn y pwll glo, yn gallu ynganu'r enw. Dewiswyd yr enw **Deri** yn ei le. Mae'r tai gwarchod yn **Neri** hefyd yn dwyn yr enw *Ysgwydd-gwyn* i adlewyrchu'r hen enw. Fodd bynnag, cofnodwyd yr enw *Derie* ym 1744, a *Darran and Deri* fu'n enw'r orsaf yno ar Reilffordd Rhymni.

Draethen *(o "traeth" neu o bosibl "traethu")*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 223 187
Er y defnyddir y gair "traeth" yn fwyaf cyffredin ar gyfer glan y môr, mae'n bosibl bod hon yn enghraifft o ddefnyddio'r gair yng nghyd-destun ardal ar lannau afon megis cors neu fignen. Damcaniaeth arall yw y gallai'r "traeth" hwn ddeillio o'r gair "traethu", o bosibl fel disgrifiad o sŵn yr afon fel nifer o leisiau yn parablu. Cofnodwyd yr enw mor bell yn ôl â 1465, lle y'i dangoswyd fel *Trayth Maghon* ac ymddangosodd fersiwn presennol yr enw am y tro cyntaf ar ffurf *Melin-y-Draythen* ym 1615.

Eneu'r-glyn / Energlyn *(genau+y+glyn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 146 881
Mae enw'r anheddiad hwn yn deillio o'i leoliad wrth 'enau' Cwm Rhymni i'r gogledd o Gaerffili. Anfynych iawn y defnyddir y gair "genau" mewn enwau lleoedd - yn wir ymddengys mai dim ond dau le yng Nghymru sy'n dwyn yr enw hwn, y llall yw *Llanfihangel Genau'r Glyn* ger *Aberystwyth* (a elwir *Llandre* bellach). Ynganiad o'r enw Cymraeg gwreiddiol yn y dafodiaith Gymraeg leol yw'r fersiwn Saesneg, a defnyddiwyd y ddau fersiwn ers llawer o flynyddoedd, cofnodwyd *Energlyn* ym 1729 (yn deillio o *Generglyn* ym 1525 er enghraifft); ysgrifennwyd yr enw fel *Ener Glynn* yn '*A Topographical Dictionary of The Dominion of Wales*' gan Nicholas Carlisle, Llundain, 1811. Nodwyd *Eneu'r-glyn* ar fapiau o'r sir ers 1885 a dyma sydd ar yr orsaf drenau newydd a agorodd yn hwyr yn 2013.

Fernlea
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 238 913
Ni ddefnyddir unrhyw enw Cymraeg ar lafar gwlad ar gyfer yr anheddiad hwn, sef ardal ym mhen gogleddol **Rhisga**, er bod *Dol-y-rhedyn* wedi'i awgrymu. Mae'r enw'n adlewyrchu'r dull Cymreig o enwi lleoedd, yn yr achos hwn fel disgrifiad o'r planhigion a dyfodd yn yr ardal yn wreiddiol. Daw'r elfen "fern" o'r dolydd rhedynog, a gair Saesneg Canol yw "lea" yn wreiddiol ar gyfer darn o dir agored, dôl neu borfa.

Fochriw *(boch+rhiw+garn yn wreiddiol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 103 054
Y Fochriw ddylai fod ffurf gywir yr enw mwy diweddar, ac yn aml cyfieithir enw'r pentref yn llythrennol fel "slope of the pigs" yn sgîl y gamdybiaeth bod y gair "moch" wedi treiglo. Fodd bynnag, "boch" oedd y gair gwreiddiol, gan mai enw llawn yr anheddiad yw *Bochriw'r Garn*. Mae hyn yn newid yr ystyr. Er bod "boch" fel arfer yn golygu "cheek" (sef ochr y wyneb) yn Saesneg, gall hefyd olygu chwydd yn y ddaear neu fryn, gan gyfeirio o bosibl at ddarn crwn o graig ar y "rhiw" islaw'r "carn", sef y garreg Rufeinig a geir uwchben y pentref ar **Gomin Gelligaer**. Ymhlith yr enghreifftiau o'r enw hynafol hwn ceir *Bohrukarn* tua 1170, *y voyghryw garn* tua 1700 ac *Y Fochriw* ym 1867.

Gelligaer *(gelli+caer)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 135 969

Ystyr llythrennol yr enw yw'r "gelli ger y gaer". Daw enw'r pentref o'i hanes fel caer atodol Rufeinig, a hyd yn oed ymhellach yn ôl mewn hanes pan oedd bryngaer Oes yr Haearn ar y bryn cyfagos, Buarth-y-gaer, sydd yn union i'r dwyrain o'r pentref. Ganed Cadog, un o brif seintiau'r 6ed ganrif, yng Ngelligaer (Catwg Sant yw enw'r ward leol), ac yn ôl y chwedlau, roedd yn fynach, roedd ganddo alluoedd hudol, roedd yn westeiwr caredig a hael ac roedd hefyd yn ffermwr llaeth llwyddiannus iawn. Ceir yr enw hefyd yn *Llangadog* yn Sir Gaerfyrddin, sy'n enwog am ei hufenfa, sydd bellach wedi cau, a oedd arfer cynhyrchu cwstard a phwdin reis blasus iawn, a cheir caws Cadog Cymreig mewn archfarchnadoedd lleol. Mae sillafiad Gelligaer wedi newid dros y blynyddoedd i adlewyrchu'r ynganiad, er enghraifft *Gelligâr* o 1750. Ceir plac yn Neuadd Eglwys Gelligaer gyda'r sillafiad *Neuadd Kell Y Gaer 1911* ac roedd yr enw hefyd yn dechrau gyda K yn ôl rai o'r mapiau cynnar, megis *Kil-gaer* 1281, *Kylthy-gaer* ym 1307, *Kilthi-gaer* ym 1349 a *Kethlygajer* ar fap Pieter van den Keere o Sir Fynwy ym 1605.

Gelli-groes *(gelli+croes)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 175 945

Mae'r pentref wedi'i enwi ar ôl y fferm leol ac yn golygu "y gelli wrth y groesffordd". Bu melin flawd yno ar un adeg a oedd yn fyd-enwog am fod neges gyfyngder radio gan y Titanic wedi'i derbyn yno ym 1912, cyn i'r llong suddo ar ôl gwrthdaro â mynydd iâ.

Gelli-haf *(gelli+haf)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 159 955

Cofnodwyd enw'r pentref fel *Gelli-have* ar fap o Sir Fynwy ym 1850. Saif y pentref rhwng **Pontllan-fraith** a **Threlyn**. Mae'r enw'n gyfuniad o'r elfennau "gelli" a "haf". Ardal amaethyddol fu hi'n bennaf, a defnyddiwyd yr ardal o amgylch **Gelli-haf** fel tir pori yn ystod yr haf yn ôl y dull traddodiadol Cymreig o ffermio (hafod a hendre), gan ei fod ar y llechwedd yn hytrach nag yn y cwm islaw.

Gilfach *(o "cilfach")*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 151 982

Daw'r enw o'r gair "cilfach", sef cornel cysgodol neu guddfan. Cil neu encil yw man y byddai meudwy neu fynach yn mynd iddo i fod ar ei ben ei hun, a cheir y gair fel elfen mewn llawer o enwau lleoedd ledled Cymru megis *Cilfynydd* a *Ciliau Aeron*. Dangosir yr enw fel **Gilfach** gan fod y gair yn enw benywaidd, gan mai *Y Gilfach* fyddai'r enw llawn, ond fel sy'n digwydd yn aml yn enwau lleoedd Cymraeg collwyd y fannod "y" ond erys y treiglad meddal. Cofnodwyd yr enw fel *Tyre Kilvache vargoed* ym 1629, *Kilvach Bargoed* 1632 ac fel *Kilvach Bargod* ym 1729 er enghraifft. Mae map o Forgannwg ar gyfer "England and Wales Delineated" ym 1843 yn cofnodi'r enw fel *Gilfach-fargawd-fawr*, ac mae'r arfer o enwi Gilfach ynghyd â **Bargod** gyfagos yn gyffredin o hyd.

Glan-y-nant *(glan+y+nant)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 145 975

Enwyd y pentref yn sgîl ei leoliad ar lan y nant sy'n llifo o **Ben-pedair-heol** i lawr i afon **Rhymni**.

Glyn-gaer ***(glyn+caer)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 141 969

Enwyd y pentref yn sgîl ei leoliad yn y cwm islaw olion y gaer Rufeinig yng **Ngelligaer**. Ceir yr elfennau "glyn" a "caer" mewn llawer o enwau lleoedd ledled Cymru.

Graig-y-rhaca / Graig-y-rhacca ***(craig+y+rhaca)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 189 889

Ar fapiau o 1885, cofnodwyd enw'r pentref fel Craig-y-Rhaca, a thros y blynyddoedd treiglodd y "C" yn "G" am yr un rheswm â'r hyn a nodwyd uchod ar gyfer **Gilfach** ac a nodir isod ar gyfer **Groes-faen**. Er mai offeryn garddio yw rhaca, mae'n bosibl y daw'r enghraifft hon o derm a ddefnyddiwyd ar gyfer ardal hirgul rhwng tir amaethyddol a phorfa fynyddig neu dir comin. Roedd y gair "raca" yn gyffredin yn Swydd Amwythig ar gyfer darn o dir o'r fath. Daw'r gair am y llain hon o dir lle gyrrwyd a rhoddwyd trefn ar dda byw o'r gair Hen Saesneg "hracca" sy'n golygu "llwybr garw". Ceir yr amrywiad "rhacan" yn hytrach na "rhaca" mewn sillafiadau cynharach hefyd. Ceid hefyd *Creyge Rackawn* ym 1570, *Craig y raccha* 1630 a *Craigracka* 1813.

Groes-faen ***(croes+maen)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 135 005

Dyma ardal ger **Deri** yng Nghwm Darran. Mae hefyd yn enw ar y fferm rhwng y pentref hwn ac **Aberbargod** gyfagos ac roedd hefyd yn enw ar bwll glo. Pwll glo Groesfaen oedd y pwll dyfnaf yng Nghwm Darran (2160 troedfedd) ac roedd ar waith am 60 mlynedd o 1908, gan gyflogi 730 o ddynion. Caewyd y pwll glo ym 1968. Yn hytrach na golygu "croes faen" yn llythrennol, "croesfan garreg" yw ei ystyr yma, gan gyfeirio at bont garreg dros yr afon o'r 17eg ganrif.

Groes-wen ***(croes+gwen)***

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 130 870

"Croes wen" yn llythrennol yw ystyr yr enw yn yr achos hwn. Mae'r pentref yn fwyaf adnabyddus fel lleoliad capel cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru, a sefydlwyd ym 1742. Ers y cyfnod hwnnw ceir yr enghreifftiau canlynol o'r enw - *Groes Wenn* 1742, *Cross-wen* 1750, *Tir y Grose Wen* 1764, *White Cross* 1772 a *Croes Wen* 1786.

Gwrhay *(naill ai cwr+hæg neu gwrai)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 185 995

Anheddiad rhwng **Oakdale** ac **Argoed** a enwyd ar ôl dwy fferm yn yr ardal, Gwrhay-fawr a Gwrhay-fach. Enwyd Pwll Glo Nant Gwrhay ar ôl y ffermydd hyn hefyd. Ganed Zephaniah Williams, un o arweinwyr Gwrthryfel y Siartwyr yng Nghasnewydd ar 4ydd Tachwedd 1839, yn y pentref ym 1769. Nid oes sicrwydd ynghylch tarddiad yr enw, noda un awgrym y gall "gwr" ddod o'r gair Cymraeg "cwr", sef ymyl neu ffin, a gall "hay" ddod o'r gair Hen Saesneg *hæg* (a ynganir fel "hay") sy'n golygu naill ai coedwig â ffens o'i hamgylch neu goedwig amgaeedig. Tybir bod yr enw Saesneg *Hay-on-Wye* ar gyfer y Gelli Gandryll ym Mhowys yn tarddu o'r un elfen. Yr awgrym arall yw bod yr enw'n deillio o'r enw personol "Gwrai" a gofnodwyd ers o leiaf y 12fed ganrif. Mae gwrai hefyd yn offeryn a ddefnyddir i gyweirio dannedd llif drwy blygu pob yn ail ddant allan ychydig - er nad oes sicrwydd ynghylch arwyddocâd hyn mewn perthynas â'r ardal, oni bai ei fod yn cyfeirio at ryw nodwedd dopograffig sy'n debyn i lafn llif o'r fath. Ar ddechrau'r 19eg ganrif, roedd Pwll Glo Gwrai yn eiddo i J.H. Moggridge, a nododd adroddiad y Comisiwn Brenhinol ym 1842 y manylion canlynol am gyflogeion Pwll Glo Gwrhay y pryd hynny - *GWRHAY and PEN-Y-VAN, parish of Mynyodduslwyn, county of Monmouth. Aaron Crossfield, Esq., part proprietor. Mr. James Harper, book-keeper to Mr. Roger Lewis, general storekeeper and contractor for working the Gwrhay Colliery. Mrs. Mary Lewis. Shadrach Williams, aged 11, collier. Moses Williams aged 7, air-door boy. Rosser Jenkins, aged 8, collier. Richard Hutton, aged 7, collier. John Evans, aged 8, collier. Daniel Jones, aged 16, collier. Charles Pascal, aged 14, collier. John Rosser, aged 14. haulier. Joseph Head, age, 14 haulier.* Yn ddiweddarach roedd y pwll glo yn eiddo i deulu Lewis o Fferm Gwrhay-fawr erbym 1869, ac erbyn dechrau'r 20fed ganrif roedd yn eiddo i Lofa Oakdale Navigation, tan i'r pwll gau ym 1924.

Hafodyrynys *(hafod+yr+ynys)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 225 984

Yn draddodiadol roedd dwy annedd ar ffermydd yng Nghymru, yr "hafod" ar gyfer yr haf a'r "hendre" ar gyfer y gaeaf. Lleolwyd yr hafod ar dir uchel er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr heulwen, ac roedd yr hendre yn is yn y dyffryn er mwyn cael cysgod rhag y gaeafwyntoedd. Er bod "ynys" fel arfer yn cyfeirio at ynys yn y môr, gall hefyd gyfeirio at ardal o dir rhwng dwy afon, neu ddôl ar lan afon. Felly ystyr llythrennol yr enw yw "yr hafod yn y ddôl". Mae'r pentref uwchben **Crymlyn** ar y ffordd i'r dwyrain tuag at *Bont-y-pŵl*. Roedd Pwll Glo Hafodyrynys ar waith o tua 1914 i 1966, ond fe'i lleolwyd ar safle a gloddiwyd ers o leiaf diwedd yr 1870au. Bu trychineb ym 1962 pan laddwyd pedwar gweithiwr ar ôl cwymp tanddaearol enfawr.

Hendredenny *(hendre+ yr enw Denni neu Tenni)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 135 187

Yn draddodiadol, roedd gan ffermydd yng Nghymru annedd ar gyfer yr haf ac annedd arall ar gyfer y gaeaf. Yr "hendre" oedd yr annedd a ddefnyddid yn y gaeaf, ac roeddent yn is yn y dyffryn er mwyn cael cysgod rhag y gaeafwyntoedd. Daw enw'r anheddiad o Neuadd Hendre-denny gyfagos, adeilad rhestredig gradd 2, a adeiladwyd ger neu ar safle fferm sydd wedi bodoli ers o leiaf dechrau'r 14eg ganrif, pan restrwyd "Hendredeni" fel rhan o eiddo Gilbert de Clare, a adeiladodd Gastell Caerffili. Cofnodwyd yr enw ym 1746 fel *Tire finnon Denny* a cheir yr elfen hefyd yn yr enw *Llandenni / Llandenny*, i'r gogledd o *Frynbuga* yn Sir Fynwy (Mathenni gynt). Posibilrwydd arall yw y daw "deni" neu "denny" o'r gair Cymraeg "denu", ac yn ôl y ddamcaniaeth hon, mae'n bosibl mai ystyr yr enw yw bod y fferm mewn lleoliad deniadol.

Hengoed *(hen+coed)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 150 951
Ystyr llythrennol yr enw yw "hen goedwig". Enwyd y pentref ar ôl Neuadd Hengoed, plasty mawr yn yr ardal, er ei bod yn ddiddorol nodi bod mapiau o 1886 yn dangos bod Neuadd Hengoed i'r gogledd o anheddiad **Cefn Hengoed**, er bod **Cefn Hengoed** bellach uwchben ac i'r gogledd o **Hengoed**.

Llanbradach *(glan+nant+ yr enw personol Bradach yn wreiddiol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 150 903
Ystyr "Llan" yw eglwys neu blwyf, ond yn yr achos hwn daw'r enw o "Glan Nant Bradach". Gair Gwyddeleg yw "Bradach" sy'n golygu "lladrata, chwiwladrata", ond awgrymwyd mai cyfuniad o'r terfyniad Gwyddeleg *-ach* a'r gair Cymraeg "brad" a geir yma, yn yr ystyr bod y nant yn fradwrus, h.y yn dueddol o lifogydd sydyn, dinistriol - ac mae'r nant yn dueddol o orlifo ar ôl glaw trwm hyd heddiw. Damcaniaeth arall yw mai "brad" y mynach yn y stori werin leol am **Ystrad Mynach** (gweler y cofnod hwnnw am fanylion) sy'n gyfrifol am yr elfen hon a'r enw llawn oedd *Glan Brad y Mynach*. Bu'r enw ar glawr mewn rhyw ffurf neu'i gilydd ers o leiaf 1597.

Llancaeach *(glan+nant+caeach yn wreiddiol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 112 962
Mae'r enw hwn yn adnabyddus bellach oherwydd Maenordy Llancaiach Fawr, atyniad hanes byw yn y fwrdeistref sirol. Cofnodwyd enw'r ardal fel *Kayach* 1536-9, *Kaeach* ar ddiwedd yr 16eg ganrif a *Lancayach* ym 1630. Gall enw'r afon gynnwys yr elfen "caer" fel ffurf o "cau" yn yr ystyr o "amgáu", gan fod yr ardal o amgylch Llancaiach Fawr ac ardaloedd i'r gorllewin bron wedi'u hamgáu gan afon Caeach ac afon Bargod Taf. Cyfeiriwyd at y lle fel *Lancaiach Vaur* ym 1795 mewn cofnodion Eglwysig ynghylch cadarnhau addoldai "anghydffurfiol" (h.y. anghydffurfiol yn hytrach na sefydliadau Eglwys Loegr neu'r Eglwys Babyddol) a chofnodwyd *Lanciach* ar fap o Forgannwg a argraffwyd gan Eyre a Spottiswoode, Llundain ym 1885.

Llanfabon *(llan+ yr enw Mabon)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 108 937
Cysegrwyd eglwys y pentref ("y llan") i Mabon Sant. Honnir iddo fyw yn y 6ed ganrif, yn ôl ffynonellau yn dyddio o 500 mlynedd ar ôl hynny, ac mae'n bosibl y gallai Mabon fod wedi bod yn noddwr lleyg. Ceir yr enw hefyd yn yr enwau lleoedd *Rhiwabon / Ruabon* (*Rhiwfabon* yn wreiddiol) a *Manorwen* (*Maenor Fabon*). Yn ogystal cofnodwyd duw Celtaidd o'r enw Maponos yng Ngâl Rufeinig.

Llanfach *(llan+bach)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 225 955
Anheddiad ger **Abercarn**. Mae'r "llan fach" yn cyfeirio at eglwys yr Arglwyddes Llanofer.

Llechryd *(llech+rhyd)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 107 092
Cyfuniad o'r gair "rhyd" a "llechi" a geir yma. Enwyd yr anheddiad hwn, i'r gogledd o **Rymni** ar ôl dwy fferm yn yr ardal, sef Llechryd Uchaf a Llechryd Isaf. Cofnodwyd enw'r ardal yn wreiddiol fel *Rumney bridge* 1814 a *Rumney Bridge* 1832. Mae'r enw'n cyfeirio at y llechfeini llwyd a ddefnyddid fel cerrig sarn yn yr afon, ac ystyr yr enw yw "rhyd y llechfeini".

Llwyncelyn / Hollybush *(llwyn+celyn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 316 203
Enwyd yn wreiddiol ar ôl y dafarn. Datblygwyd pwll glo Llwyncelyn gyntaf ym 1820, ond ehangodd yn gyflym ar ôl 1880, a datblygodd y pentref o amgylch y ffermydd a'r bythynnod gwreiddiol. Ganwyd James James, cyfansoddwr alaw 'Glan Rhondda' (sef cerddoriaeth yr Anthem Genedlaethol) yn yr 'Ancient Druid Inn' yn Llwyncelyn ym 1832.

Machen *(yn deillio o ma+chen)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 214 890
Ni ddefnyddir y gair Cymraeg "ma" ar lafar gwlad, ond fe'i ceir mewn nifer o enwau lleoedd gan ei fod yn golygu tir isel, gwastadedd neu wastatir. Gall "chen" ddeillio o'r enw Cymraeg gwrywaidd Cain neu Cein. Cofnodwyd enw'r lle mewn ffurfiau amrywiol ers o leiaf 1101. Yn wreiddiol defnyddiwyd yr enw Machen ar gyfer yr anheddiad a elwir Machen Isaf bellach, ond mae'r enw wedi symud i fyny'r cwm wrth i'r tai yn yr ardal ddatblygu'n araf. Ceir amrywiad ar enw'r pentref mewn fersiwn cynnar o'r enw ar gyfer **Draethen** hefyd, lle cofnodwyd enw'r ardal honno fel *Trayth Maghon* ym 1465. Fe'i cofnodwyd hefyd fel *Maughen* ar fap a gyhoeddwyd mewn cyfnodolyn i wŷr bonheddig yn Llundain ym 1765 - ysgrifennwyd cyfres o erthyglau, gyda phob un yn dangos map ar gyfer camau taith o Lundain i Dyddewi yn Sir Benfro.

Maes-y-coed / Woodfieldside *(maes+y+coed)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 182 971
Dyma enghraifft o ardal lle mae'r enw Cymraeg a'r enw Saesneg yn dilyn y patrwm o enwi lle yn ôl disgrifiad o'r ardal. Mae'r enw Saesneg yn cyfeirio at ochr allt â chaeau o goed, gydag ystyr ychydig yn wahanol a mwy llythrennol yn y Gymraeg.

Maes-y-cwmwr / Maesycwmmer *(maes+y+cwmwr)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 155 945
Ystyr y gair "cwmwr" yw "pont droed" neu "bompren", gan gyfeirio o bosibl at y stori leol am goeden fawr a gwympodd ar draws yr afon, gan ffurfio pont naturiol ar draws afon Rhymni. Ystyr yr enw yw "y maes ger y bont droed", a cheir enghreifftiau o'r enw o 1856 a 1903, gan ddefnyddio'r sillafiad *cwmwr* ym 1885. Erys y sillafiad gyda'r "m" dwbl yn y fersiwn Saesneg o'r enw, ond nid yw'n bresennol yn y Gymraeg gan nad yw'r cyfuniad o "m" dwbl yn digwydd yn y Gymraeg.

Maes-y-ffynnon / Springfield *(maes+y+ffynnon)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 185 955
Yr ystyr llythrennol sydd i'r enw yn y ddwy iaith, gan fod ffynnon yn yr ardal. Mae hefyd yn enw lle poblogaidd iawn, gan fod o leiaf 50 o leoedd o'r enw Springfield yn y DU, gydag amrywiadau megis Springfields, a cheir hefyd ffermydd, gwestai a thai o'r un enw, heb sôn am ei enwogrwydd fel cartref teulu cartŵn enwog yn yr Unol Daleithiau. Mae'r enw'n ymddangos o'r Ynysoedd Erch i Ddyfnaint, a **Springfield** ger **Pontllan-fraith** yw un o'r tair enghraifft yn unig o'r enw a geir yng Nghymru, gyda'r lleill yn Sir Fynwy a Sir y Fflint.

Man-moel *(man+moel)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 175 035

Ystyr modern hyn yw "man moel", gan gyfeirio at leoliad y pentref uwchben cwm Ebwy a chwm Sirhywi, ac mae'n cydymffurfio â'r dull Cymreig o enwi lleoedd. Fodd bynnag, ceir ystyr gwreiddiol i'r enw sy'n deillio o'r 12fed Ganrif, pan sefydlwyd eglwys yn yr ardal i un o ddilynwyr Cadog Sant, sef Macmoil. "Mac" yw ffurf Wyddeleg "mab" a thros y canrifoedd mae amrywiadau yn y sillafiad wedi achosi rhywfaint o ddryswch, gyda'r fersiwn modern **Man-moel** yn ymdrech i egluro rhai o'r ystyron cynharach. Mae'n fwy tebygol mai'r ystyr gwreiddiol oedd "y man sy'n gysylltiedig â Macmoil Sant". Mae'r sillafiadau amrywiol dros y canrifoedd yn cynnwys *Ecclesia Mac moilo* tua 1200, *Mapinoil* neu *Mapmoil* 1330, gan ddatblygu i *Melyn Van Hoell* (sef Melin Fan-moel), *Mamm Howell* 1630 a *Mamhole* in 1653. Fe'i cofnodwyd fel *Pentre Man Moel* ym 1833 ar fap o Sir Fynwy gan Thomas Moule.

Markham

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 166 012

Enwyd y pentref ar ôl Syr Arthur Markham, un o gyfarwyddwr Cwmni Haearn a Dur Tredegar. Datblygwyd y pentref ym 1910 ar gyfer gweithwyr ar ôl agor siafftiau cloddio yn yr ardal.

Mynyddislwyn *(o mynydd+is+llwyn yn wreiddiol)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 195 940

Ei ystyr yw "y mynydd is y llwyn", mae'r mynydd wedi benthyg ei enw i gymaint sy'n bwysig yn yr ardal. Ganrifoedd yn ôl roedd gan yr eglwys ar ben y bryn blwyf mawr iawn, ac enwyd yr etholaeth seneddol bresennol a'r hen gyngor bwrdeistref yn Islwyn ar ôl yr eglwys. Dewisodd y Parchedig William Thomas (1832-1878), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd o **Ynys-ddu,** Islwyn fel ei enw barddol, ac ef yw un o feirdd enwocaf Cymru. Yn wreiddiol roedd y pentref ar lethrau gorllewinol y mynydd gyda'r llwyn uwchben, a chysegrwyd yr eglwys a'r plwyf yn wreiddiol i Tudur ap Hywel, a gofnodwyd fel *tydyr ap howel* tua 1566, a hefyd yn Nhwyn Tudur, sef y domen lle adeiladwyd castell yn y 12fed ganrif. Cofnodwyd enw'r ardal fel *Monythuscland* ym 1566 ac fel *Mynyddisllwyn* ar y map o Forgannwg gan Eyre a Spottiswoode, Llundain, 1885.

Nelson

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 115 955

Mae'n debyg y daw'r enw o'r dafarn *The Lord Nelson* a adeiladwyd ar ôl i nifer o byllau glo agor yn yr ardal. Enwyd y dafarn ar ôl i'r Arglwydd Nelson ymweld â'r ardal ym 1803, ddwy flynedd cyn brwydr enwog Trafalgar. Ni ddefnyddir enw Cymraeg y pentref *Ffos y Gerddinen (ffos+y+cerddinen)* ar lafar gwlad erbyn hyn; gall "ffos" olygu ffos neu ddyfrffos, a math o goeden yw "cerddinen", coeden sy'n gyffredin yn yr ardal ac sy'n rhoi'r enw Saesneg i bentref cyfagos *Mountain Ash* (*Aberpennar*) yng Nghwm Cynon.

Oakdale *(oak+dale)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 187 986

Dyma enghraifft o roi enw Saesneg ar bentref gan ddefnyddio'r dull Cymreig traddodiadol o enwi lle yn ôl nodweddion daearyddol neu dirnodau. Roedd derw yn goed cyffredin yn yr ardal, ac mae coed yn rhan gyffredin o enwau lleoedd yng Nghymru (fel yn achos **Deri**). Defnyddiwyd yr enw am y tro cyntaf gan yr Oakdale Navigation Collieries Ltd, is-gwmni Cwmni Haearn a Glo Tredegar. Sefydlwyd y pentref yn benodol fel llety ar gyfer glowyr a'u teuluoedd gan nad oedd anheddiad yno yn flaenorol, a dyluniwyd y pentref drwy gystadleuaeth ym 1910-11 i adeiladu pentref o 600 o dai at y diben hwnnw. Er y caiff ei gyfieithu weithiau fel *Cwmderi*, *Cwmderwen*, *Glyn-y-deri* neu *Glyn-derwen*, nid oes enw Cymraeg swyddogol ar y pentref ar hyn o bryd. Enw'r ysgol Gymraeg newydd yn yr ardal yw Ysgol Gymraeg Cwm Derwen

Ochrwith / Ochrwyth *(ochr+chwith)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 234 888

Ceir cyfuniad o'r geiriau "ochr" a "chwith". Er bod chwith fel arfer yn golygu'r gwrthwyneb i'r dde (h.y. fel llaw dde a llaw chwith), gall hefyd olygu "anghywir" mewn rhai cyd-destunau fel yn y gair "chwithig" sef rhywbeth anghywir. Un eglurhad posibl ar gyfer yr enw yw bod y pentref, er ei fod yn agos i **Risga**, ym mhlwyf **Machen**, hynny yw, roedd y pentref ar yr "ochr anghywir (chwith)" o'r mynydd o'i eglwys blwyf. Llygrwyd yr enw ar arwyddion dros y blynyddoedd i **Ochrwyth**, gan y tybiwyd ei fod yn deillio o'r gair "chwythu" ac mai "llethr wyntog" oedd yr ystyr. Nid yw hynny'n wir, ond defnyddir y sillafiad yn helaeth ar arwyddion a deunydd ysgrifenedig arall erbyn hyn. Ar fapiau, dangosir fod y pentref wedi'i rannu'n Ochrwith Uchaf ac Ochrwith Isaf.

Penallta *(o pen+yr+alltau yn wreiddiol)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 139 953

Mae'r enw'n cyfeirio at leoliad daearyddol y ffermydd gwreiddiol yn yr ardal - Penalltau Fawr a Phenalltau Isaf. Yn aml hepgorwyd yr "u" ar lafar gwlad yn ne a de-ddwyrain Cymru gan fod y terfyniad "au" yn troi'n "a" neu "e" yn y dafodiaith leol. Safle hen bwll glo ydyw, a bellach ceir parc gwledig deniadol ac ystâd dai newydd Cwm Calon yn yr ardal, ac agorodd Ysgol Gymraeg Penalltau yn yr ardal yn 2009.

Pengam *(pen+cam)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 157 971

Cyfeiria enw'r pentref at "ben y bryn cam". Yr enw gwreiddiol oedd *Aberpengam*, ac enwyd y pentref ar ôl y fferm a'r nant o'r un enw yn yr ardal. Gall y gair "aber" olygu cydlifiad neu gymer dwy neu fwy o afonydd, gan gyfeirio o bosibl ar y ffaith fod Nant yr Union, Nant Cascade a nant fach ddienw oll yn ymuno ag afon Rhymni yn yr ardal. Ceid amrywiadau o ran sillafiad enw'r pentref dros y canrifoedd, ac fe'i cofnodwyd fel *Pont y manpenagm* 1704, *Pontar Pengam* tua 1790, *Tir Pont Pengam* a *Pont Aber Pengam* 1813, *Pontabar Pengam* 1831, *Pontmaenpengam* 1851. Mae'n debyg bod yr enw presennol wedi ymddangos am y tro cyntaf ym 1860, gyda *Pengam* a *Pontaberpengam* ill dau wedi'u cofnodi yn y flwyddyn honno.

Penllwyn *(pen+llwyn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 175 955
Daw enw'r anheddiad o ddisgrifiad daearyddol o'i olwg wreiddiol fel bryn wedi'i orchuddio â llwyni.

Penmaen *(pen+maen)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 183 978
Cyfeiria'r enw at y "bryn creigiog" - cyfeiriad at y brigiadau creigiog yn yr ardal, lle mae darn bach yn unig o graig lawer mwy o faint i'w weld uwchben y ddaear. Mae'r anheddiad hwn ar fryn sy'n edrych dros afon Ebwy a thref gyfagos **Coed Duon**. Fe'i cofnodwyd fel melin yn unig, sef *Melyne Penne Mayne* ym 1487, yr enwau diweddarach oedd *Tir Penmayne* 1653 a *Penmaine* ym 1707.

Penpedairheol *(pen+pedair+heol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 140 975
Mae'r gair "pen" yma'n golygu "diwedd", sef cyfeiriad at ben y pedair heol sy'n cyfarfod wrth y groesffordd.

Penrhiw (*pen+rhiw*)
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 245 191
Cyfeiria enw'r pentref at ei leoliad ar "ben y rhiw" yn **Rhisga**.

Pentrapïod / Pentrapeod (*sef "pentref" a ffurf luosog "pioden"*)
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 200 010
Pentref i'r gogledd o **Oakdale** ger Pwll Pen-y-fan, sef "pentref y pïod". Mae llafariaid y Gymraeg yn newid yn aml oherwydd amrywiadau rhanbarthol, ac yn yr achos hwn newidiodd y sillafiad o "pïod" i "peod" oherwydd dylanwad y dafodiaith leol. Fe'i cofnodwyd fel *Pentref-piod* ym 1833 a dengys map o 1956 fferm yn yr ardal o'r enw *Pentrepiod Farm*.

Pen-twyn *(pen+twyn)*
Cyfeirnodau Grid Arolwg Ordnans (1) SO 105 045 a (2) SO 205 005
Disgrifiad daearyddol o'r lleoliad ydyw, a cheir dau anheddiad o'r enw hwn yn y fwrdeistref sirol, **Pen-twyn (1)** uwchben **Fochriw** yng Nghwm Darran a **Pen-twyn (2)** ger **Trinant**. Ceir llawer o enghreifftiau eraill o'r enw hwn yn ardal hen Sir Fynwy yn unig, sy'n awgrymu o bosibl bod rhyw arwyddocâd arbennig i'r enw.

Pentwyn-mawr *(pen+twyn+mawr)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 195 965
Disgrifiad daearyddol o'r lleoliad ydyw oherwydd saif y pentref uwchben **Trecelyn** ar ben twyn serth. Gallai hefyd gyfeirio at y ffaith ei fod yn bentref mwy o faint na **Phen-twyn** gyfagos (ger **Trinant**); gall y gair "mawr" hefyd olygu "mwyaf" neu "bennaf" fel yn achos *Llanilltud Fawr* ym Mro Morgannwg.

Pen-y-bryn *(pen+y+bryn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 135 961
Mae'r pentref hwn rhwng **Ystrad Mynach** a **Gelligaer**, a dyma enghraifft lythrennol arall o enwi anheddiad yn ôl ei leoliad daearyddol.

Pen-y-fan *(pen+y+ban)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 195 005
Enw cyffredin ledled Cymru, "ban" yw gair Cymraeg arall ar gyfer brig neu gopa bryn neu fynydd, fel gyda Bannau Brycheiniog. Ym mwrdeistref sirol Caerffili mae'n lleoliad ychydig o dai gwasgaredig, rhwng pentrefi **Pentrapïod**, **Croespenmaen** a **Man-moel**, ystâd ddiwydiannol a Phwll Pen-y-fan, cyfleuster hamdden bach sy'n un o'r cronfeydd lledgamlas olaf yng Nghymru.

Pen-yr-heol *(pen+yr+heol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 145 885
Daw'r enw o leoliad yr anheddiad ar ben yr heol o **Bwll-y-pant** yn y cwm islaw drwy **Eneu'r-glyn**.

Pontllan-fraith *(pont+llyn+fraith yn wreiddiol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 183 956
Mae'r enw'n dangos sut y gellir cyfnewid dau air tebyg dros amser, gan fod "llan" sef eglwys neu gaeadle wedi disodli'r gair gwreiddiol "llyn" yn yr enw hwn. Yr ystyr gwreiddiol oedd "pont y llyn fraith", gan gyfeirio o bosibl at y cerrig a oedd i'w gweld uwchben dyfroedd afon Sirhywi. Ceir yr elfen "brith" hefyd yn enw pentref **Brithdir**.

Pontlotyn / Pontlottyn *(pont+llydan yn wreiddiol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 114 057
Cofnodwyd enw'r anheddiad hwn ger pentref **Rhymni** fel *Pont Lydan* ym 1754. Eglurhad amgen yw y daw o *pont-y-tlotyn* sef "pont y dyn tlawd", er nad oes unrhyw eglurhad pendant o darddiad yr enw hwn, ac ni chofnodwyd y fersiwn hwnnw o'r enw ar unrhyw fapiau. Mae ynganiad yr enw wedi datblygu dros y blynyddoedd ac erbyn hyn, ysgrifennir yr enw yn seinegol, yn hytrach na sut y'i henwyd yn wreiddiol.

Pont-y-meistr / Pontymister *(pont+y+meistr neu pont+y+mystwyr)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 240 900
Daw enw'r anheddiad o'r bont leol, a gofnodwyd fel *Pont y Maister* ym 1624 ac fel *Maister Bridge* y flwyddyn ganlynol. Mae'r enw ei hun ar glawr yn gynharach fyth, oherwydd cofnodwyd enw'r fferm yn yr ardal fel *Maestyr* ym 1600, *Maes Tire* ym 1668 ac fel *Maister* tua 1700. Ystyr posibl yw "pont y meistr (haearn)", ond mae tarddiad arall i'r enw sy'n deillio o gyfnod pan leolwyd hen faenor Abaty Llantarnam yno, ger melin ddŵr. Mae'r enw hwn hyd yn oed yn hŷn na'r fferm, oherwydd cofnodwyd enw'r felin *Mayster Kynfawr* o 1204 (mae'n bosibl mai'r enw personol Cymraeg Cynfor yw *Kynfawr*), *Mayst* (ffurf dalfyredig *Mayster*) ym 1254 a *master mỳll* ym 1581. Daw'r gair Cymraeg "mystwyr" o'r Lladin "monasterium" a gallai fod yn gyfeiriad at yr Abaty.

Pont-y-waun *(pont+y+gwaun)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 225 925
Rhwng **Cwmcarn** a **Crosskeys** ar lannau'r afon Ebwy, daw enw'r pentref o'r dramffordd garreg neu'r "bont" a oedd yn croesi'r afon yn y fan hon, o un "waun" i'r llall. Cofnodwyd fel *Pant-a-wyn* ar fapiau ym 1850.

Princetown
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 112 099
Yr anheddiad mwyaf gogleddol ym mwrdeistref sirol Caerffili, bu anheddiad yno ers o leiaf 1880 pan y'i dangoswyd ar fapiau o'r ardaloedd cloddio glo lleol, gan ymddangos yn aml ar fwy nag un map ardal oherwydd ei leoliad, megis y mapiau o Sir Fynwy, Morgannwg a Brycheiniog yn y 1890au.

Pwll-y-pant *(pwll+y+pant)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 155 885
Cofnodwyd yr enw fel *Pwllypant* ym 1738 ac fel *pwlly pant* ym 1784. Erbym 1833, roedd yr enw *Pwll-y-pant* yn cyfeirio'n benodol at y groesffordd a'r tollborth, ac erbym 1852 fe'i cofnodwyd fel *Pwllypant Gate*. Mae'n debyg mai pwll yn yr afon Rhymni sy'n esbonio'r elfen "pwll", a'r "pant" oedd lleoliad y groesffordd lle aeth ffordd **Caerffili**-**Llanbradach** i lawr i'r pant, lle roedd y groesffordd â'r ffordd a arweinai i fyny i **Eneu'r-glyn** a **Phen-yr-heol** o **Fedwas**.

Rhymni / Rhymney *(o'r gair "rhwmp")*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 114 078
Pentref diwydiannol a ddatblygodd o amgylch Gwaith Haearn Rhymni - Union Ironworks Co. ym 1803, gyda'r pentref a'r gwaith haearn wedi'u henwi ar ôl yr afon. Dewiswyd yr enw fel enw'r plwyf ym 1843, a dyna hefyd oedd enw hen gyngor dosbarth yr ardal o 1974 i 1996. Cofnodwyd enw'r afon fel *Remni* ym 1101, gyda nifer o amrywiadau dros y blynyddoedd - *Rumeya* 1274, *Rompney* 1314, *Rempny* 1340. Ym 1479 cofnodwyd enw'r bont fel *pontem Remeebrygge* ac fel *Pont Remny / Remney Bridge* ym 1536-39. Mae'r afon yn tarddu uwchben hen fferm o'r enw Blaenrhymni ac yn llifo i lawr y cwm, gan adael bwrdeistref sirol Caerffili ar ôl **Machen** gan arllwys i'r môr yn *Rempney haven or creke* fel y'i gelwid ym 1565, sef *Tredelerch / Rumney* yng Nghaerdydd heddiw. Oherwydd y sillafiadau niferus o'r enw sy'n cynnwys y llythyren "p", mae'n bosibl y daw'r enw o'r gair Hen Gymraeg "rhwmp", sef "taradr" neu "ebill" yn Saesneg, felly ystyr posibl yr enw yw'r "afon sy'n tyllu fel taradr" i ddisgrifio sut y mae'r afon wedi tyllu neu gerfio'i ffordd drwy'r cwm.

Rhisga / Risca *(naill ai o yr+is+cae neu o'r gair "rhisgl" yn wreiddiol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 245 905
Ceir dau eglurhad gwahanol o'r enw hwn, sydd ar glawr ers o leiaf 1146 (ffynhonnell *'Cartae et alia Munimenta de Glamorgan'*, G.T.Clark 1910). Daw un tarddiad o "yr is cae", gan gyfeirio at ei leoliad ar ben isaf ucheldiroedd. Yr awgrym arall yw y daw'r enw o'r gair "rhisgl", a ellid fod wedi'i ddefnyddio i wneud lledr ac sy'n cyfeirio at ddefnyddio rhisgl ar arwyneb allanol tai pren; fodd bynnag, ni cheir unrhyw dystiolaeth o unrhyw strwythurau o'r fath yn yr ardal erioed. Cofnodwyd yr amrywiadau canlynol - *Risca* 1330, *Ryscha* 1535, *Riskey* 1559, *Risgaf* 1566, *Riseley* 1577, *Risga* 1623, *Rishka* 1695 a *Rhisga* ym 1778.

Rhydri / Rudry *(efallai o "rhydd", neu "rhudd"/"rhwd" neu o yr+yw+tref)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 195 865
Enw arall y cynigiwyd llawer o esboniadau gwahanol amdano dros y blynyddoedd, ac a sillafwyd mewn sawl ffordd wahanol. Fe'i cofnodwyd fel *Rutheri* ym 1254, *Rudri* a *Rudry* ym 1307, *Rothered* ym 1314, *Reddery* ym 1476, *Rudre* ym 1550, *y Rydri* tua 1566, *Riddrie* ym 1583, *Ruddrisse parish* ym 1670, *Ruddry* ym 1707, *Mynidd Ruddry* ym 1747 a *Ruddry* eto ym 1833. Un awgrym yw y daw o'r gair Cymraeg "rhydd", sef cyfeiriad at sut y mae'r afon Rhymni yn llifo drwy'r ardal. Ystyr posibl arall yw "rhudd" sef gair arall am y lliw coch (fel yn achos "rhuddem") neu "rhwd" sef cyfeiriad o bosibl at liw'r gwaddodion yn yr afon ac yn y tir cyfagos. Mewn llyfr a gyhoeddwyd ym 1833 gan Samuel Lewis o'r enw "*A Topographical Dictionary of Wales*", cofnodwyd yr enw fel *Ruddry / Yr-Yw-Dre* a'r eglurhad a roddwyd oedd ei fod yn golygu'r "ffermydd yn y coed yw". Ychwanegodd Samuel Lewis fod ffynnon dŵr mwynol yn yr ardal "*which is said to be highly efficacious in curing diseases of the eye and is much resorted to for that purpose*."

Rhiw'r-perrai / Ruperra *(rhiw+y+perrai)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 225 865
Safle un o gestyll y fwrdeistref sirol, ystyr yr enw yw "rhiw'r coed gellyg". Er mai "gellyg" sydd fel arfer yn cyfateb i'r Saesneg "pears", defnyddid "perai" yn aml yn ne-ddwyrain Cymru, gan ddeillio o'r geiriau Hen Saesneg "peyrige" neu "pirige" sef coeden ellyg. Cofnodwyd yr enw fel *riw r perre* ym 1550, *Rhiw r perai* ym 1560, *Rrywrperrey* ym 1572, *Ruperrey* ym 1578, *Rewperrie* ym 1596, *Rhyw r Perre* ar ddechrau'r 17eg ganrif, *Rewperrey* 1626, *Rhiw-r-Perrey* 1650, *Rhyu=perry Castle* 1695, *Ruperra* 1717, *Ruperra Demesne* 1795 a *Rhiwperra* ym 1833.

Senghenydd *(o'r enw Sangan + yr ôl-ddodiad "ydd" yn wreiddiol)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 115 905
Mae'n debyg y daw enw'r anheddiad yng Nghwm Aber o "dir neu diriogaeth Sangan" a defnyddir yr ôl-ddodiad "ydd" yn aml yn dilyn enw personol yn y Gymraeg i nodi bod y tir yn eiddo i'r unigolyn hwnnw e.e. *Meirionnydd* neu *Eifionydd*. Hwn oedd enw'r cantref rhwng *yr Eglwys Newydd* a *Merthyr Tudful*. Ardal o dir oedd cantref, y tybiwyd ei bod yn cynnwys can cwmwd, neu anheddiad. Ysgol Bro Sannan yw enw un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn y fwrdeistref sirol. Cofnodwyd sawl ffurf wahanol ar yr enw dros y canrifoedd, yn cynnwys *Seinhenit* tua 1179, *Seighenith* tua 1194, *Seynghenyth* 1271, *Senghenyth* 1314, *Seynthenneth* 1476, *Seignhenith Suptus et Supra Cayach* 1578-84. Mae'n bosibl mai'r sillafiad *Seint Genith* ym 1326 sydd wedi arwain at y dyb y daw'r enw o Cenydd Sant, a 'Saint Cenydd' yw enw'r eglwys a'r ysgol gyfun leol, a gerllaw ceir yr anheddiad **Trecenydd** a sefydlwyd yn yr 20fed ganrif. Mae **Senghenydd** yn adnabyddus o ran hanes y diwydiant glo fel lleoliad dwy drychineb lofaol drasig. Ddydd Gwener, 24ain Mai 1901, bu farw 78 o lowyr yng nglofa'r Universal, sef y pwll glo cyntaf yng Nghwm Aber, a fu ond yn gweithredu am 18 mis cyn y drychineb. Digwyddodd y drychineb am 5.30am wrth i'r sifft nos adael y pwll, ac roedd yn bosibl clywed tri ffrwydrad 3.5 milltir i ffwrdd, gyda nwy a chwympiadau cerrig ar waelod y siafft yn atal achubwyr rhag cyrraedd y glowyr. Ddeuddeg mlynedd yn ddiweddarach, ar 14eg Hydref 1913, bu trychineb lawer gwaeth, pan laddwyd dros 400 o ddynion gan danchwa danddaearol tua 8am, dim ond 2 awr ar ôl dechrau sifft y bore. Roedd y danchwa mor swnllyd fel ei bod yn bosibl ei chlywed yng *Nghaerdydd*, sydd 11 milltir i ffwrdd.

Tirphil *(efallai tir + yr enw Philip)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 135 035
Gan mai "Tir Phillip" yw ystyr yr enw, yn aml tybir i'r anheddiad gael ei enwi ar ôl Nehemiah Phillips, o'r Powell Duffryn Steam Coal Company Ltd, fel yn achos **Treffilip** gyfagos. Mewn gwirionedd cofnodwyd yr anheddiad fel *Tir Phil* ym 1841, sef pedair blynedd cyn geni Nehemiah Phillips, felly mae'n bosibl y gallai hyn gyfeirio at aelod cynharach o'r un teulu. Cofnodwyd yr enw hefyd fel *Tyr Phil* ar fap o Forgannwg a argraffwyd gan Eyre a Spottiswoode, Llundain, ym 1885.

Tir-y-berth *(tir+y+perth)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 155 965
Mae'r gair "perth" yn cyfeirio'n ôl at y cyfnod pan mai prin oedd poblogaeth yr ardal ac roedd heb ei hamaethu.

Trecelyn / Newbridge *(tre+celyn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 209 968
Dyma enghraifft o le mae'r enwau Cymraeg a Saesneg wedi datblygu ar wahân. Mae'r enw Saesneg yn cyfeirio at ddatblygiad tref o amgylch "pont newydd" a godwyd dros afon Ebwy. Ceir cofnodion Saesneg o'r enw sy'n dyddio yn ôl i *Newbridge in Monythuscland* ym 1566 a *Newbridge mill* 1630. Yn wreiddiol roedd yr enw Cymraeg yn gyfieithiad mwy llythrennol o ***new+bridge*** oherwydd ceir cofnod o *tyr ynis y bont newyth* ym 1630. Ceir hefyd *y Bontnewydd* o 1839. Datblygodd yr enw **Trecelyn** ar wahân ers i dai gael eu datblygu ar gyfer gweithwyr pyllau glo Gogledd Celynen a De Celynen (a enwyd ar ôl Nant Celyn). Mae llawer o fapiau Arolwg Ordnans yn nodi enw Cymraeg yn anghywir fel *Cefn Bychan*. Mewn gwirionedd dyna enw Cymraeg *Newbridge* ger *Rhiwabon* yn Sir Ddinbych, a gellir gweld y gwall hwn o hyd ar rai o'r mapiau a chyfeiriadau a geir ar y rhyngrwyd.

Trecenydd *(tybir mai tref + enw Cenydd Sant*)
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 145 875
Enwyd yr ystâd hon o dai a adeiladwyd ar ôl yr ail ryfel byd ar ôl yr eglwys a gysegrwyd i Cenydd Sant. Mae'r eglwys a'r ysgol gyfun leol hefyd wedi'u henwi ar ôl y sant. Fodd bynnag, mae'r enw **Senghenydd** yn deilio o'r enw personol *Sangan* a'r ôl-ddodiad Cymraeg "-ydd". Mae'n bosibl bod y ffaith i **Senghenydd** gael ei sillafu fel *Seint Genith* ym 1326 wedi arwain llawer o bobl i dybio y daw'r enw o Cenydd Sant.

Tredomen *(tre+tomen)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 135 945
Gall y gair "tre" olygu tref neu fferm, a'r ail ystyr sydd iddo yma, oherwydd cofnodwyd y ffermydd *tredomanvach* a *Tredoman Vaur* ym 1783. *Tre-tommen* oedd yr enw erbym 1813. Ceir sawl ystyr i'r gair "tomen" yn dibynnu ar y cyd-destun. Gall "tomen" gyfeirio at y "domen o greigiau", sef Creigiau Tredomen, y gellir eu gweld o ffordd yr A472 rhwng **Ystrad Mynach** a **Nelson**. Mae'n debyg felly mai "y fferm ger y domen o greigiau" yw'r ystyr.

Tredegar Newydd / New Tredegar *(o tre+tegyr+newydd)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 143 031
Er bod "tre" neu "tref" fel arfer yn cyfateb i'r Saesneg "town", gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer "fferm" fel yn yr achos hwn. Tegyr oedd enw'r fferm yr enwyd teulu Tredegar ar ei hôl (newidiodd "tegyr" i "tegar" dros y blynyddoedd). Mae'r *Tredegar* wreiddiol ger Casnewydd (Tŷ Tredegar oedd lleoliad Eisteddfod Genedlaethol 2004). Sefydlwyd tref *Tredegar* ym Mlaenau Gwent yn sgîl twf Gwaith Haearn y teulu yng nghwm Sirhywi, a'r enw a roddwyd ar y tai newydd a adeiladwyd yn y cwm nesaf oedd **Tredegar Newydd**, gan gymryd enw'r pwll glo a agorwyd yno ym 1858. Adeiladwyd ar safle dwy fferm, *Aberysibwr* a *Chwmysibwr* a'r enw gwreiddiol oedd *Y Rhosyn Gwyn*. Defnyddiwyd yr enw hwnnw ar gyfer gorsaf reilffordd White Rose ym 1885, ar gyfer enw'r stryd Ffordd y Rhosyn Gwyn a bellach fel enw'r ysgol gymunedol a adeiladwyd yn yr ardal a agorodd ym mis Medi 2004, Ysgol Gynradd y Rhosyn Gwyn.

Tref Eliot / Elliot's Town *(tref + yr enw Elliot)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 154 028
Adeiladwyd y pentref hwn ger **Tredegar Newydd** i ddarparu llety ar gyfer gweithwyr Glofa Eliot, ac fe'i henwyd ar ôl Syr George Elliot, cyd-sefydlydd Cwmni Cyfyngedig Powell Duffryn Steam Coal. Buddsoddodd y cwmni, a Syr George ei hun, yn y gwaith o adeiladu'r tai. Mae'r enw Cymraeg yn enghraifft brin o gyfieithu enw o'r Saesneg, hyd yn oed i'r graddau o hepgor un "l" o Elliot er mwyn sicrhau cywirdeb gramadegol a seinegol y Gymraeg. Mae hyn yn digwydd yn aml wrth gyfieithu enwau lleoedd o'r Gymraeg i'r Saesneg, ond hon yw un o'r enghreifftiau prin yn y fwrdeistref sirol o gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Treffilip / Phillipstown *(tref + yr enw Philip)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 148 031
Enwyd ar ôl Nehemiah Phillips (1845-1929), un o brif randdeiliaid y Powell Duffryn Steam Coal Company Ltd a rheolwr pwll glo, cynghorydd sir a phregethwr brwd gyda'r Bedyddwyr. Mae'r enw Cymraeg yn un o'r enghreifftiau prin yn y fwrdeistref sirol lle y cyfieithwyd enw a oedd ond yn bodoli yn Saesneg, gan geisio Cymreigio'r enw Phillip. Mae hyn yn digwydd yn aml o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn enwau lleoedd, ond prin iawn yw enghreifftiau i'r gwrthwyneb.

Trelyn / Fleur-de-lis *(tref+llyn)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 159 965
Dyma enghraifft o enw pentref yn datblygu ar wahân mewn dwy iaith. Daw'r enw Cymraeg o'r "anheddiad ger y llyn", ar ôl y nifer fach o ffermydd a fu ger yr afon ers canrifoedd. Yr enw Ffrangeg ar gyfer "gellesgen" neu "lili" yw'r enw arall, ond mae ei wreiddiau yn ymestyn ymhellach yn ôl na Ffrainc y canol oesoedd. Ei ystyr llythrennol yw "Blodyn Bywyd". Daw'r symbol o'r hen Aifft yn wreiddiol, a llawer yn ddiweddarach fe'i mabwysiadwyd gan deuluoedd brenhinol Ffrainc, ac i raddau llai mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, fel symbol herodrol. Rhoddwyd yr enw i'r pentref yn yr 17eg ganrif gan yr Huguenotiaid o Ffrainc a oedd wedi ffoi o'r erledigaeth grefyddol yn eu gwlad. Roedd yr enw yn ddolen gyswllt pwysig rhyngddynt â'u mamwlad goll. Yn aml dangosir yr enw Ffrengig fel *Fleur de Lys*, *Fleur-Des-Lis* ac amrywiadau eraill, ond defnyddir **Fleur-de-lis** bellach fel y sillafiad safonol gan yr awdurdod lleol. Roedd tafarn yno ers 1831 o'r enw "Fleur-de-lis" a cheid hefyd tafarn o'r enw'r "Trelyn Arms" yn y pentref, tan iddi gael ei dinistrio gan dân. Mewn cofnodion cynnar, ceir yr enw fel *Flower-de-luce* 1833 a *Fleur-de-lis* a *Trelyn* ill dau ym 1869. Mae trigolion lleol yn aml yn cyfeirio at y pentref fel *Flower*.

Treowen *(tre+owen)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 205 980

Ystyr yr enw yw "tref y teulu Owen". Enwyd yr anheddiad hwn ar ôl un o hen deuluoedd Sir Fynwy, ac mae'n rhannu ei enw â phentref ym Mwrdeistref Cyngor Sir Fynwy, lle ceir Neuadd Treowen ger *Trefynwy*.

Tretomos / Trethomas (*tref+ yr enw Thomas*)

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 185 890

Pentref a ddatblygodd yn dilyn agor Glofa'r Bedwas Navigation ychydig cyn y Rhyfel Byd Cyntaf ar dir perchennog y pwll glo lleol, Syr William James Thomas (1867-1945) a Barwn Ynyshir yn ddiweddarach, a oedd yn hanu o **Gaerffili** ac a oedd yn un o gymwynaswyr y Clafdy Brenhinol yng *Nghaerdydd*.

Trinant *(tri+nant)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 205 999

Datblygodd y pentref o amgylch Glofa Trenant (a oedd ar waith o 1832 i 1897). Ceid hefyd *Tre-nant Hall* a choedwig, a gofnodwyd yn ddiweddarach fel *Coed Tri-nant* ym 1886. Mae'n debyg bod yr enw'n deillio o'r ffaith bod tair nant yn yr ardal. (Gweler hefyd **Glan-y-nant** am enghraifft arall o ddefnyddio “nant” mewn enw lle).

Troedrhiw'r-fuwch (*troed+rhiw+buwch*)

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 135 045

Enwyd yr anheddiad bach hwn, yn union i'r gogledd o **Dirphil**, ar ôl fferm yn yr ardal. Ceir y cyfuniad "troed" a "rhiw" mewn llawer o enwau lleoedd ledled Cymru, megis Troedrhiwgwair ger *Tredegar* a'r bryn Moel-troed-y-rhiw ym *Maesteg*.

Tŷ'n-y-coed-cae / Waterloo *(tŷ+yn+y+coed+cae)*

Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 195 881

Mae Tŷ'n-y-coed-cae yn bentrefan bach ger **Bedwas** a **Machen**, ar ochr arall yr afon Rhymni iddynt. Fferm Gelli Wastad oedd yn wreiddiol yr unig annedd yn yr ardal gyfagos, ac erys y ffermdy yn y pentref, ar y brif ffordd. Mae'r enw Saesneg wedi datblygu o enwau dwy stryd yn y pentref, a enwyd ar ôl y gweithfeydd *Waterloo Forge and Tin Plate Works*, a oedd ymysg eitemau eraill, yn gwneud offer ar gyfer y diwydiant hedfan gan fod gweithfeydd awyren ym **Machen** gerllaw. Caewyd y gweithfeydd tunplat ym 1943.

Mae'r enw Cymraeg yn deillio o fferm leol arall. Mewn bwthyn ar y fferm honno, ganwyd Dr William Price (1800-1893), sy'n cael ei gydnabod fel un o ffigurau amlycaf Cymru yn y 19eg ganrif a'i ystyried yn ecsentrig, radical a lliwgar yn ei gredoau a'i ymddygiad.

Yr oedd yn feddyg, ac ar ôl astudio yn Llundain dychwelodd i Gymru fel meddyg teulu; roedd yn Siartwr ac yn gefnogwr brwd o genedlaetholdeb Cymru. Roedd ei farn ynghylch priodasau, crefydd, amlosgi, llysieuaeth a gwisgo dillad yn rhai dadleuol iawn ym Mhrydain Fictoraidd.

Tŷ Sign (*yn deillio o tir+y+sygn neu tir+sugn* yn wreiddiol)
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 247 907
Enghraifft ryfedd o'r hyn sy'n ymddangos fel enw dwyieithog, yn llythrennol, gyda'r gair cyntaf yn Gymraeg a'r ail yn Saesneg. Fe'i cofnodwyd fel *The Signe* ym 1654, *Kaye nesa yr Signe* ym 1685, *Tyr y Signe* 1760 a chofnodwyd y sillafiad presennol ym 1832 fel *Ty-Sign*. Mae'n bosibl bod yr enw'n deillio o "tir" a'r hen air Cymraeg "sygn" (sy'n deillio o'r gair Lladin *signum* ac yna'r gair Hen Saesneg *segn* neu'r gair Hen Ffrangeg *signe*) sef un o arwyddion y Sidydd, neu mae'n bosibl y daw o'r gair Cymraeg "sugn", sef "sugno" gan ei bod yn bosibl bod tir corsiog yn yr ardal.

Wattsville
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 205 915
Adeiladwyd y pentref yn yr 1880au fel llety ar gyfer glowyr yr United Collieries, **Rhisga**, gan gael ei enwi ar ôl E.H. Watts, Cadeirydd y cwmni Watts, Ward and Company.

Wern-ddu (*gwern+du*)
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 170 862
Ardal ar gyrion deheuol **Caerffili**, ystyr "gwern" yw cors neu goed gwern (mae coed gwern yn tyfu'n dda ger afonydd neu yn nyfroedd llonydd tir corsiog); daw enw'r ardal o Goed Wern-ddu, sef y goedwig sy'n gorchuddio'r mynydd dros dwnnel y rheilffordd o **Gaerffili** i *Gaerdydd*.

West End
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 216 947
Datblygodd yr anheddiad o amgylch y gwaith tun yn yr ardal ym mhen gorllewinol **Abercarn**, sy'n egluro'r enw.

Wyllie
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 179 940
Adeiladwyd y pentref tua 1928/29 fel llety ar gyfer glowyr Pwll Glo Wyllie, gan gael ei enwi ar ôl yr is-gyrnol Alexander Keith Wyllie (1853-1926), a oedd yn un o gyfarwyddwyr Cwmni Haearn a Glo Tredegar.

Y Bryn / The Bryn (*y+bryn*)
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 165 955
Daw'r enw o leoliad yr anheddiad ar fryn sy'n edrych dros **Pontllan-fraith**.

Y Drenewydd / Bute Town *(y+tre+newydd)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - SO 105 090
Daw'r enw Saesneg o Waith Haearn Bute a'r Ardalydd Bute, a oedd yn berchen ar dir yn yr ardal. Mae map o Forgannwg ar gyfer "England and Wales Delineated" ym 1843 yn dangos *Bute Town* ond yn ddiweddarach, ar fap a ategodd adroddiad Comisiynwyr Ffiniau Cymru a Lloegr ym 1885, dangoswyd yr enw fel *Bute Works* yn unig. Wrth i'r ardal ddatblygu, cymerodd yr enw *Newtown* ym 1875, ac er bod hyn i'w weld o hyd yn yr enw Cymraeg, **y Drenewydd**, newidiodd y fersiwn Saesneg yn ôl i **Bute Town** yn fuan, sef y ffurf Saesneg a ddefnyddir hyd heddiw. Mae'r enwau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos mewn mannau eraill yng Nghymru, er enghraifft *Butetown* yng *Nghaerdydd* a *Newtown / Y Drenewydd* ym Mhowys a chyfagos i *Aberpennar*.

Y Graig / The Rock (*y+craig*)
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 178 987
Fe'i disgrifiwyd ym 1901 fel pentrefan 1 filltir i'r gogledd o **Goed Duon**. Dengys mapiau o 1886 fod yr ardal ar y ffordd o **Goed Duon** i **Argoed**, a elwid **Rock** yn cynnwys *Rock Foundry*, *Rock Cottage*, *Rock House* a Chapel y Methodistiaid Calfinaidd *Rock Chapel*. Yn rhyfedd ddigon, nid oedd tafarn y *Rock and Foundry* yn yr ardal gyfagos, gan ei bod bellach i ffwrdd ym **Maes-y-coed**, gan mai dyna'r lle yr oedai gweithwyr Ffowndri'r Graig i dorri syched ar y ffordd adref o'r gwaith. Ym 1901, heblaw am y pyllau glo a'r ffowndri, yr unig safleoedd masnachol a restrwyd ar gyfer yr ardal oedd groser, saer olwynion, gof a thafarn The Rock Inn, sydd yno o hyd.

Ynys-ddu *(ynys+du)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 179 920
Adeiladwyd fel patrymlun o anheddiad bach yn yr 1820au gan J.H. Moggridge ac mae'n fwyaf adnabyddus fel man geni a chartref y bardd Islwyn (y Parchedig William Thomas (1832-1878), Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd). Fel yn achos **Hafodyrynys**, er bod "ynys" fel arfer yn cyfeirio at ynys yn y môr, gall hefyd gyfeirio at ardal o dir rhwng dwy afon, neu ddôl ar lan afon. Mae'r enw'n deillio o'r ffaith bod yr ardal wedi'i hamgylchynu gan byllau glo a thomenni sorod, ac y byddai'r afon yn aml yn ddu oherwydd y llwch glo.

Ystrad Mynach *(ystrad+mynach neu efallai ystrad+min+ach)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans - ST 144 940
Ceir llawer o eiriau Cymraeg sy'n cyfateb i'r Saesneg "valley", gan ddibynnu ar natur a ffurf y tir dan sylw. "Ystrad" yw cwm llydan gyda gwaelod gwastad. Nid yw'r rheswm dros yr enw'n hysbys mewn gwirionedd, er y gall "mynach" fod yn enw sydd bellach yn angof ar afon a oedd yn llifo i afon Rhymni, oherwydd ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth o fodolaeth mynachlog yn yr ardal. Un tarddiad posibl yw, yn hytrach na "mynach", y daw'r enw o "min ac "ach" - gyda "min" yn golygu ymyl neu ffin ac "ach" yn hen air am gors, felly ystyr yr enw yma fyddai "ystrad ar ymyl y gors". Fodd bynnag, ceir chwedl werin swynol bod enw'r lle yn ymwneud â mynachod (ac sydd hefyd yn berthnasol i **Lanbradach**). Yn ôl y chwedl, bu'n rhaid i fynach ffoi o Gastell Caerffili gan ei fod yn cael carwriaeth waharddedig â merch ifanc y teulu Ffrengig a breswyliai yn y castell ar y pryd. Daliwyd y mynach, fe'i dedfrydwyd i farwolaeth, ac fe'i crogwyd ar goeden yn yr ystrad, felly tybir mai dyna'r rheswm dros yr enw **Ystrad Mynach**.

Pentref Coll Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae dros 3,000 o bentrefi "coll" ledled Prydain, sydd wedi diflannu oherwydd trychinebau naturiol, neu y cefnwyd arnynt oherwydd datblygiadau dynol. Rhaid mai *Capel Celyn* yng nghwm Tryweryn, a foddwyd er mwyn darparu dŵr i *Lerpwl* a *Chilgwri*, yw'r enwocaf yng Nghymru, ond ceir rhai mannau coll yn agosach atom . . .

Pant-y-waun *(pant+y+gwaun)*
Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans – SO 088 076
Pentref diflanedig rhwng **Fochriw** a *Dowlais* ym *Merthyr Tydfil*, tua hanner ffordd rhwng *Dowlais* a Phwll Rhaslas. Roedd yn anheddiad bach o tua 50 o dai, 3 tafarn, 3 eglwys, ysgol a neuadd gymunedol. Diflannodd y pentref yn llwyr pan ehangodd cwmni Taylor Woodrow ei safle glo brig yng nghanol y 1960au. Ar un adeg dim ond un adeilad oedd ar ôl, tafarn y Royal Arms, a roddodd ei henw i safle'r lofa. Fodd bynnag, dangosir yr ardal fel *Pant-y-waun* o hyd ar fapiau'r Arolwg Ordnans, a bellach dim ond ychydig o dai gwasgaredig sydd ar ôl yn yr ardal.

Ffynonellau a ddefnyddiwyd i lunio'r wybodaeth hon

Dewi Davies	**Welsh Place Names and their Meanings** Cambrian Printers (1977)
Elwyn Davies	**Rhestr o Enwau Lleoedd** Gwasg Prifysgol Cymru (1967)
E.M.Davies	**Welsh Place Names: Their Meanings Explained** Celtic Educational Ltd (Ail Argraffiad. 1979)
Anthony Lias	**A Guide to Welsh Place Names** Gwasg Carreg Gwalch (1994)
Hywel Wyn Owen	**The Place Names of Wales** Gwasg Prifysgol Cymru (1998)
Gareth Pierce	**Cyfres Broydd Cymru: Gwent** Gwasg Carreg Gwalch (1997)
Graham Osborne a Graham Hobbs	**The Place Names of Eastern Gwent** Old Bakehouse Publications (1998)
Graham Osborne a Graham Hobbs	**The Place Names of Western Gwent** Old Bakehouse Publications (2002)

Yn ogystal â'r uchod, fel y nodwyd yn y prif gofnodion yn y rhestr, defnyddiwyd nifer o hen fapiau, lluniau ac erthyglau hanesyddol i olrhain datblygiad yr enwau lleoedd hyn.

Dechreuwyd llunio'r rhestr yn wreiddiol ym 1998 a bu'n destun erthygl ym mhapur newydd "Newsline" Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a chafwyd sylwadau a gwybodaeth gan dros 60 aelod o'r cyhoedd mewn ymateb i'r erthygl; cafwyd trafodaethau penodol mewn rhai ardaloedd ynghylch y defnydd o enwau lleoedd a'u sillafiad (megis Nelson, Treffilip, Pontlotyn, Coed Duon ac Oakdale) ac anfonwyd y rhestr ar adegau gwahanol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Prifysgol Bangor ac at arbenigwyr lleol megis Richard Morgan a Graham Osborne (sef un o'r awduron a nodwyd uchod, a ymwelodd â'r cyngor i drafod materion sy'n gysylltiedig â gwaith o'r fath).

Ers 1998, mae'r rhestr wedi datblygu o gofrestr syml yn nhrefn y wyddor i'w defnyddio gan gyfieithwyr a staff priffyrdd a chynllunio'r cyngor, i adnodd llawer manylach a all gael ei ddefnyddio gan unrhyw un sy'n dymuno cael gwybod mwy am hanes trefi a phentrefi yr ardal leol.

Defnyddiwyd y rhestr fel sail ar gyfer cyflwyniadau i grwpiau lleol, megis cyfarfod blynyddol y Fenter Iaith ac ar gyfer Merched y Wawr, fel rhan o'r broses ymgynghori barhaus i ehangu a datblygu'r rhestr.

Caiff y rhestr ei gyhoeddi a'i roi ar fewnrwyd a safle we'r Cyngor fel adnodd hygyrch i bawb a'i gyhoeddi fel llyfryn ar gyfer ysgolion a grwpiau neu unigolion sydd â diddordeb mewn enwau lleoedd a hanes yr ardal.